# ADRODDIAD BLYNYDDOL: 2018 - 2019

Crynodeb: Gorffennaf 2019

BWRDD **TALIADAU**
**REMUNERATION** BOARD

# Y BWRDD TALIADAU

Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff annibynnol sy'n gyfrifol am bennu cyflogau, pensiynau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Sefydlwyd y Bwrdd gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010), a gafodd Gymeradwyaeth Frenhinol ar 22 Gorffennaf 2010.

# AELODAU'R BWRDD

- Y Fonesig Dawn Primarolo DBE PC (Cadeirydd)
- Ronnie Alexander
- Trevor Reaney CBE
- Mike Redhouse
- Y Fonesig Jane Roberts

# YSGRIFENYDDIAETH Y BWRDD

- Lleu Williams, Clerc
- Sian Giddins, Dirprwy Glerc (hyd at fis Ebrill 2019)
- Ruth Hatton, Dirprwy Glerc (o fis Ebrill 2019)

Gellir gweld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol: **www.cynulliad.cymru**. Gellir cael copïau o'r adroddiad hwn hefyd ar ffurfiau hygyrch yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain neu gopïau caled gan:

**Clerc y Bwrdd Taliadau**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **Taliadau@Cynulliad.Cymru**

# ADRODDIAD BLYNYDDOL: 2018 - 2019

Crynodeb: Gorffennaf 2019

BWRDD **TALIADAU**
**REMUNERATION** BOARD



# Cyflwyniad

## Wrth i'r Bwrdd Taliadau ddechrau ar ei flwyddyn olaf yn ei swydd, mae ei ymrwymiad i sicrhau bod yr Aelodau'n cael digon o gymorth i ymgymryd â'u gwaith tra hefyd yn parchu gwariant y trethdalwr mor absoliwt nawr â phan ddechreuodd ei gyfnod yn y swydd.

Mae'r Bwrdd wedi cwrdd chwe gwaith ac wedi gwneud llawer o waith yn y cyfnod hwnnw. Rydw i a'r Bwrdd wedi cael sawl cyfarfod gydag Aelodau unigol a'u staff yn ogystal â Grwpiau Cynrychioliadol yr Aelodau a'r Staff Cymorth, yn ogystal ag ymgysylltu'n rheolaidd â Chomisiwn y Cynulliad a'r Llywydd.

Hefyd, cwblhaodd y Bwrdd ei adolygiad o gymorth staffio a chyflwynodd rai newidiadau pellgyrhaeddol. Mae'r Bwrdd hefyd wedi dechrau ei adolygiad o'r Penderfyniad cyn y Cynulliad nesaf gyda'r bwriad o gyhoeddi ei Benderfyniad newydd un flwyddyn lawn cyn yr etholiad nesaf.



## ASTUDIAETH ACHOS:

Ym mis Gorffennaf 2018, cyhoeddodd y Bwrdd adroddiad 'Dadansoddi Amrywiaeth: Rhwystrau a chymhellion i sefyll yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru'.

Comisiynodd y Bwrdd Ganolfan Llywodraethiant Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd i wneud y gwaith ymchwil, gan ganolbwyntio ar p'un a yw amrywiaeth eang o bobl sydd â'r sgiliau a'r diddordebau priodol yn cael eu hatal yn ymarferol rhag sefyll yn etholiadau'r Cynulliad oherwydd unrhyw agwedd ar y pecyn taliadau, a beth allai eu cymell i sefyll.

Mae'r Bwrdd yn ystyried canfyddiadau'r adroddiad wrth iddo adolygu'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad.



# Penderfyniadau

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r Bwrdd wedi:

- Cynyddu'r Lwfans Gwariant Llety Preswyl ar gyfer Aelodau ardal allanol 2.4 y cant yn 2019-20 yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr, a chynyddu'r lwfans i Aelodau ardal canolradd i £6,840 y flwyddyn ar gyfer 2019-20.
- Darparu £47,808 fel rhan o'r Gronfa Polisi, Cyfathrebu ac Ymchwil, i'r Aelodau i gomisiynu darnau penodol o waith ymchwil o ffynonellau allanol ac i ganiatáu i'r Aelodau ymgysylltu â'u hetholwyr.
- Darparu £3,808 ychwanegol i'r Aelodau sy'n wynebu amgylchiadau eithriadol sy'n effeithio ar eu gallu i gyflawni eu dyletswyddau. Mae'r Bwrdd yn adolygu pob achos yn unigol i sicrhau bod yr Aelodau hynny sydd angen cymorth ychwanegol yn ei gael.

Fel rhan o'i adolygiad staffio, gwnaeth y Bwrdd sawl newid i'r darpariaethau sydd ar gael i'r Aelodau. Cred y Bwrdd fod y system cymorth staffio bellach yn fwy addas i gyflawni ei amcanion a chredwn fod y penderfyniadau a wnaed yn adlewyrchu hynny. Yn dilyn adolygiad cynhwysfawr, penderfynodd y Bwrdd:

- roi mwy o hyblygrwydd i'r Aelodau a'r Pleidiau Gwleidyddol o ran sut y maent yn gwario eu lwfansau o fewn y system er mwyn helpu i fynd i'r afael â phroblemau, heb gynyddu'r gost i'r trethdalwr;
- cyhoeddi cyfanswm y gwariant blynyddol y mae Aelodau a Phleidiau Gwleidyddol yn ei wneud ar gostau staffio;
- dileu gallu'r Aelodau i ddefnyddio'r lwfansau sydd ar gael iddynt drwy'r Penderfyniad i ariannu cyflogaeth newydd aelodau o'r teulu a phartneriaid o fis Ebrill 2019. Bydd y rhai a gyflogir eisoes ar amddiffyniad trosiannol hyd at ddiwedd y Chweched Cynulliad;
- gwella telerau ac amodau staff cymorth i gynnwys cyflwyno diwrnodau braint yn ychwanegol at hawl gwyliau blynyddol y staff cymorth, yn ogystal â pholisi absenoldeb tosturiol newydd sbon.

Mae'r Bwrdd hefyd wedi lansio gwefan newydd i wella ei ymgysylltiad â rhanddeiliaid a dinasyddion Cymru a allai fod am gyfrannu at waith y Bwrdd - **www.bwrddtaliadau.cymru**



## ASTUDIAETH ACHOS:

**Polisi/Ymchwil**
**Trafnidiaeth yn Ne Orllewin Cymru**

Yn ystod haf 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru grynodeb o adroddiad Mark Barry, Athro mewn Ymarfer mewn Cysylltedd, ‘Rhwydwaith rheilffyrdd Cymru: Yr achos dros fuddsoddi ’.


Codwyd pryderon yn lleol am yr effaith y byddai cynnig yr Athro Barry yn ei chael ar statws gorsaf drenau Castell-nedd ar brif linell y Great Western.

Roedd Dr Lloyd yn awyddus i ddatblygu atebion a fyddai’n diogelu statws gorsaf drenau Castell-nedd ar linell y Great Western ac, ar yr un pryd, yn gwella cysylltiadau trên â gorllewin Cymru a datblygu gwasanaethau trafnidiaeth ychwanegol yng nghymunedau cymoedd De Orllewin Cymru.

Ym mis Medi 2018, trefnodd Dr Lloyd sesiwn bolisi, a gwahoddodd arbenigwr blaenllaw, yr Athro Emeritws Stuart Cole o Brifysgol De Cymru, i rannu ei arbenigedd ym maes economeg a pholisi trafnidiaeth. Roedd yr Athro Cole hefyd wedi bod yn gweithio ar syniadau i ddatblygu Llinell Ardal Abertawe fel llinell deithwyr a fyddai’n gwasanaethu ardal drefol gogledd Abertawe ac ardaloedd trefol a gwledig gorllewin Cymru. Roedd ei gyfraniad yn amserol, felly.

Roedd y sesiwn bolisi yn gyfle i drafod yr heriau sy’n wynebu’r rhanbarth o ran ei seilwaith trafnidiaeth a’r cyfleoedd posibl (fel ailagor hen reilffyrdd), ac roedd yn gyfle i ddatblygu gweledigaeth ar gyfer Metro Bae Abertawe a’r Cymoedd Gorllewinol i baratoi ar gyfer trafodaethau yn y dyfodol.

Mae’r sesiwn bolisi wedi datblygu syniadaeth Dr Lloyd yn y maes hwn, ac o ran ei gyfraniadau i drafodion y Cynulliad a thrafodaethau ag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid lleol eraill, yn genedlaethol ac yn lleol.



# Y camau nesaf

## Mae'r Bwrdd bellach yn gweithio tuag at greu Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad.

Bydd y gwaith hwn yn cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid i gynhyrchu Penderfyniad, sydd nid yn unig yn rhoi lefel ddigonol o gefnogaeth i'r Aelodau wneud eu swyddi, ond nad yw ychwaith yn atal unrhyw ddarpar ymgeiswyr a allai fod yn dymuno cael eu hethol i'r Cynulliad. Disgwyliwn gyhoeddi'r Penderfyniad hwn ym mis Mai 2020.

BWRDD **TALIADAU**
**REMUNERATION** BOARD